Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Leading Social Services in Wales
Yn arwain Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru

# Canllawiau Cymru ar reoli a throsglwyddo plant a phobl ifanc sydd yng ngofal yr Heddlu a'r Awdurdodau Lleol

## O dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984



OGL © Hawlfraint y Goron 2016
WG28312 ISBN digidol 978 1 4734 6332 5

# Cynnwys


Cyflwyniad 2
Y broblem 2
Amcanion 3
Asiantaethau sy'n bartneriaid 4
Egwyddorion 5
Cyfrifoldebau cyfreithiol 6

**Canllawiau**

1. Cyhuddo 9
2. Mechnïaeth 9
3. Trosglwyddo plant i'r Awdurdod Lleol 10
4. Llety heb ei ddiogelu 11
5. Llety diogel 12
6. Y pŵer i gadw plant yn gaeth 13
7. Statws 'derbyn gofal' 14
8. Anghytuno ynghylch trosglwyddo plentyn ac uwchgyfeirio achosion 14
9. Methu trosglwyddo plant a phobl ifanc i lety Awdurdod Lleol 14
10. Monitro ac adolygu 14
11. Sicrhau presenoldeb yn y llys 15

**Atodiadau**

A Rhestr termau
B Map o'r broses

## Cyflwyniad

Mae treulio noson mewn cell yn brofiad brawychus. Mae celloedd yr heddlu wedi'u cynllunio ar gyfer oedolion sydd dan amheuaeth o droseddu, a phrin iawn yw'r cysur neu'r sicrwydd emosiynol y maent yn ei gynnig. Nid yw amgylchedd o'r fath ddim llai na niweidiol i blant sy'n cael eu cadw yno'n hir, yn enwedig plant sydd wedi'u hamddifadu o gefnogaeth eu teuluoedd.

Mae plant sy'n cael eu cadw yn y ddalfa yn arbennig o fregus, nid yn unig oherwydd eu hoedran, ond oherwydd y gallai'r amgylchiadau a barodd iddynt ddod i gysylltiad â'r heddlu fod wedi peri trallod mawr iddynt. Mae'n bosibl eu bod dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau, yn ymdopi â thrawma neu â digwyddiadau sydd wedi niweidio perthynas werthfawr ac a fydd yn cael effaith barhaol ar eu bywydau. Mae'n anoddach i blentyn ymdopi â phroblemau o'r fath beth bynnag, felly prin y byddant mewn sefyllfa gref i ymdopi â'r anawsterau a'r pwysau sydd ynghlwm wrth dreulio amser yn y ddalfa.

Mae'r gyfraith eisoes yn cydnabod nad yw celloedd yr heddlu'n lle addas i blant. O dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE), os gwrthodir rhyddhau pobl ifanc ar fechnïaeth, mae'n ofynnol eu dwyn gerbron y llys cyntaf sydd ar gael. Weithiau, bydd hynny'n digwydd yr un diwrnod ond, fel arfer, byddant yn ymddangos gerbron y llys y diwrnod dilynol. Os gwrthodir mechnïaeth i blentyn 10-17 oed wedi iddo gael ei gyhuddo o droseddu, mae'n ofynnol i'r heddlu, o dan y gyfraith, (ac eithrio o dan rai amodau penodol) drefnu i drosglwyddo'r person ifanc i lety Awdurdod Lleol. Mae'r ddyletswydd statudol yn gymwys i'r ddwy ochr ac mae'n ofynnol i'r Awdurdod Lleol, o dan Ddeddf Gwasanaethau Cyhoeddus a Llesiant (Cymru) 2014, dderbyn plant a darparu llety iddynt o dan y ddarpariaeth hon.

Ym 1991, cadarnhaodd y DU Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn gan gytuno mai dim ond pan fydd popeth arall wedi methu y caiff plentyn ei gymryd i'r ddalfa, a hynny am y cyfnod priodol byrraf. Atgyfnerthwyd hyn ymhellach ym Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 sy'n gosod dyletswydd i sicrhau y rhoddir y sylw dyledus i hawliau a rhwymedigaethau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

## Y broblem

O dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984, os nad yw plentyn wedi'i arestio ar warant neu wedi torri amodau mechnïaeth, ni chaniateir iddo gael ei gadw yn y ddalfa am gyfnod hir oni bai ei bod yn anymarferol ei drosglwyddo i ofal yr Awdurdod Lleol (oherwydd tywydd eithriadol er enghraifft) neu oni bai bod y plentyn wedi'i gyhuddo o gyflawni trosedd dreisgar ddifrifol a chredir y gallai ladd neu anafu aelodau o'r cyhoedd yn ddifrifol *ac* ni all yr Awdurdod Lleol ddarparu llety diogel.

Rhaid bodloni gofynion llym iawn felly cyn y gellir cyfiawnhau cadw plentyn yn y ddalfa.

Caiff y casgliadau hyn eu cadarnhau gan adroddiadau amrywiol a gyhoeddwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf: mae'r rhain yn cynnwys tystiolaeth gan arolygwyr sydd wedi gweld y gwendidau â'u llygaid eu hunain, gan swyddogion yr heddlu sy'n sylweddoli bod y gyfraith yn cael ei thorri a chan blant sydd wedi'u gadael mewn dryswch ac ofn ar ôl cael eu cadw heb gyfiawnhad. Yn 2014, daeth y Grŵp Hollbleidiol Seneddol dros Blant i'r casgliad fod y broses y bydd yr heddlu'n ei dilyn wrth gysylltu ag Awdurdodau Lleol i drefnu llety i blant a gyhuddwyd o droseddu wedi troi'n broses o "dicio'r blychau" ac nad oes disgwyl, yn aml, i'r Awdurdod Lleol fedru ymateb yn ffafriol i'w cais. Fel arfer, nid yw rhingyll y ddalfa hyd yn oed trafferthu gofyn i'r Awdurdod Lleol ddod o hyd i lety erbyn hyn, gan gymryd yn ganiataol na fydd llety ar gael. Yn 2015, nododd Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi wendidau sylweddol yn y trefniadau ar gyfer plant sy'n cael eu cadw yn y ddalfa, gan gynnwys diffyg data'n ymwneud ag ymdrechion yr heddlu i sicrhau llety Awdurdod Lleol i blant.

Yn nifer o'r achosion hyn, ymddengys bod y gyfraith yn cael ei thorri oherwydd dryswch ynglŷn â'r gofynion. Yn aml iawn, nid yw swyddogion y ddalfa'n gwybod a ddylent ofyn am lety diogel ai peidio, ac weithiau, byddant yn dehongli'r term 'anymarferol' yn Neddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol i olygu 'anodd' neu 'anghyfleus', gan ei gwneud yn haws o lawer cyfiawnhau cadw plant yn y ddalfa. Yn aml iawn, nid yw staff Awdurdodau Lleol yn ymwybodol o'u dyletswydd gyfreithiol absoliwt i ddarparu llety ac maent yn credu bod prinder lle mewn cartrefi plant yn cyfiawnhau gadael plant yng nghelloedd yr heddlu.

Mae angen i staff Awdurdodau Lleol fod yn ymwybodol o'r goblygiadau a'r cyfrifoldebau sydd ynghlwm wrth dderbyn plant sydd i'w "cadw'n gaeth" gan fod mechnïaeth wedi'i wrthod. Mae Adran 77(4) a (5) o Ddeddf Gwasanaethau a Llesiant (Cymru) 2014 (sy'n disodli Adran 21(3) o Ddeddf Plant 1989) yn caniatáu i'r heddlu adennill costau gan Awdurdodau Lleol pan na chaiff plant eu trosglwyddo. Mae hwn yn hen fesur deddfwriaethol a ddylai ysgogi'r ddwy ochr i gyflawni'u hymrwymiadau. Mater y penderfynir yn lleol arno yw'r swm y gallant ei adennill, a'r modd y gallant wneud hynny.

## Amcanion

Nod y canllawiau hyn yw diogelu plant a phobl ifanc drwy osgoi gorfod eu cadw dros nos yn y ddalfa, cyhyd ag y bo hynny'n ymarferol, wedi iddynt gael eu cyhuddo ac wedi i fechnïaeth gael ei wrthod. Pan na lwyddir i wneud hynny, dylai'r holl asiantaethau perthnasol fod â mesurau ar waith i adolygu'r achosion hyn er mwyn goresgyn rhwystrau yn y dyfodol.

Mae'r canllawiau hyn yn cydnabod bod yn rhaid i'r heddlu ac Awdurdodau Lleol weithio gyda'i gilydd i sicrhau ein bod yn cyflawni'n dyletswyddau ac yn rhoi'r gofal y maent yn ei haeddu i blant. Nod y canllawiau yw helpu i gyflawni'n hymrwymiadau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a, thrwy hynny, sicrhau ein bod yn cyfyngu cyn lleied â phosibl ar ryddid plant, a hynny'n gymesur ag amgylchiadau'r achos. Nid ydynt yn disodli'r ddeddfwriaeth y maent wedi'u seilio arni ond maent yn esbonio, gyda chytundeb llawn pawb, rôl pob un ohonom yn y gwaith o sicrhau bod heddluoedd ac Awdurdodau Lleol ar hyd a lled Cymru yn cydymffurfio â'u cyfrifoldebau statudol mewn perthynas â phlant yn y ddalfa.

Mae'r canllawiau hyn yn gymwys i blant a phobl ifanc (10-17 oed) a gyhuddwyd o droseddu ac y gwrthodwyd mechnïaeth iddynt.

## Asiantaethau sy'n bartneriaid

*Y Swyddfa Gartref*

Y Swyddfa Gartref yw'r adran yn y llywodraeth sy'n gyfrifol am blismona. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol y pŵer i gomisiynu Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi i gynnal arolygiadau thematig o faterion penodol yn ymwneud â heddluoedd ac, yn 2014, comisiynodd yr adroddiad ar gadw pobl sy'n agored i niwed yn y ddalfa.

*Llywodraeth Cymru*

Datganolwyd y cyfrifoldeb dros iechyd, tai, addysg a gwasanaethau cymdeithasol i Lywodraeth Cymru a hi, yn y pen draw, sy'n atebol am sicrhau bod penderfyniadau'n cydymffurfio â deddfwriaeth a pholisïau'r gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2016. Mae'n gyfrifol am ddatblygu'r codau ymarfer statudol o dan y Ddeddf, gan gynnwys hwnnw'n ymwneud â Rhan 6 sy'n cyfeirio at blant sy'n derbyn gofal a phlant a gaiff eu lletya. Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn arolygu ac yn monitro perfformiad adrannau gwasanaethau cymdeithasol Awdurdodau Lleol, a Chartref Diogel i Blant Hillside yng Nghastell-nedd.

*Y Coleg Plismona*

Y Coleg yw'r corff proffesiynol ar gyfer plismona. Mae'n gosod safonau plismona proffesiynol yng Nghymru a Lloegr ac yn sicrhau bod gan holl swyddogion a holl staff yr heddlu'r wybodaeth a'r sgiliau priodol i wneud eu gwaith.

*Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru*

Grŵp cynrychiadol o uwch reolwyr yw ADSS Cymru, ac mae'n cynnwys cyfarwyddwyr statudol gwasanaethau cymdeithasol a phenaethiaid gwasanaethau plant , a'i nod yw hyrwyddo lles, diogelwch oedolion a phlant sy'n agored i niwed yng Nghymru, a rhoi cymorth a gofal iddynt.

*Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru*

Mae grŵp Penaethiaid Gwasanaethau Cymru yn cyfrannu at weledigaeth a blaenoriaethau Cyngor Gweithredol Cymdeithasol Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, ac yn gweithredu ar eu rhan, yn unol â'r gofynion statudol.

*Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid*

Mae Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr yn sicrhau bod y trefniadau sydd ar waith i gadw pobl ifanc yn y ddalfa yn gadarn, yn ddiogel ac yn briodol. Mae'n gofalu bod plant a phobl ifanc yn cael eu trin yn effeithiol ac yn deg gan y system gyfiawnder.

*Rheolwyr Timau Troseddwyr Ifanc Cymru*

Mae Rheolwyr Timau Troseddwyr Ifanc Cymru yn cynrychioli rheolwyr ac ymarferwyr Timau Troseddwyr Ifanc Cymru, ac yn darparu gwybodaeth a chyngor arbenigol ynghylch gweithredu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid cymunedol.

*Rhwydwaith Cenedlaethol Oedolion Priodol*

Mae Oedolion Priodol yn diogelu hawliau a lles plant ac oedolion sy'n agored i niwed sy'n cael eu cadw neu eu cyfweld gan yr heddlu. Maent yn sicrhau bod swyddogion y ddalfa'n parchu hawliau cyfreithiol y grwpiau hynny.

*Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa*

Mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn ymweld yn ddirybudd â chyfleusterau'r heddlu yng Nghymru a Lloegr i sicrhau bod y rhai sy'n cael eu cadw yn y ddalfa'n cael eu trin yn deg a bod hynny, a'u lles, yn parhau i gael lle blaenllaw ar agenda heddluoedd.

*Byrddau Diogelu Plant a Byrddau Diogelu Oedolion*

Mae'r heddlu, Cwmni Adsefydlu Cymunedol (Cymru), Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr, byrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau'r GIG ac awdurdodau lleol i gyd yn bartneriaid statudol ar Fyrddau Diogelu. Mae'r byrddau'n rhannu cyfrifoldeb i ddiogelu plant ac oedolion a'u hatal rhag cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu rhag unrhyw fath arall o niwed.

*Comisiynydd Plant Cymru*

Mae gan Gomisiynydd Plant Cymru ddyletswydd statudol i ddiogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant a phobl ifanc Cymru.

## Egwyddorion

Dylai'r holl asiantaethau sydd ynghlwm wrth y gwaith o gadw plant a phobl ifanc o dan 18 oed yn gaeth gadw at yr egwyddorion a ganlyn:

1. Diogelwch a lles y plentyn yw'r brif ystyriaeth

2. Caiff plant a gyhuddir o droseddu eu rhyddhau ar fechnïaeth pan fo hynny'n bosibl

3. Dylid ystyried mechnïaeth amodol os oes unrhyw bryderon

4. Os caiff mechnïaeth ei gwrthod rhaid i swyddog y ddalfa gofnodi'r rheswm dros hynny

5. Os caiff mechnïaeth ei gwrthod, rhaid trosglwyddo'r plentyn i ofal yr Awdurdod Lleol, oni bai bod hynny'n anymarferol

6. Dim ond pan fo hynny'n angenrheidiol y gofynnir am lety diogel

7. Os gofynnir am lety diogel, dylai'r Awdurdod Lleol wneud popeth yn ei allu i ddarparu llety diogel

8. Os na fydd modd darparu llety diogel, rhaid cofnodi hynny a rhoi gwybod i'r panel monitro ac adolygu perthnasol

9. Os na ofynnir am lety diogel, rhaid i'r Awdurdod Lleol ddarparu llety priodol i'r plentyn

10. Os nad oes modd darparu llety priodol, rhaid cofnodi hynny a rhoi gwybod i'r panel monitro ac adolygu perthnasol

11. Bydd y plentyn yn cael ei ystyried yn blentyn 'sy'n derbyn gofal' os yw'r awdurdod lleol yn ei letya am gyfnod di-dor o 24 awr neu ragor

12. Mae'r pŵer i gadw plentyn yn gaeth, a'r cyfrifoldeb a'r atebolrwydd sydd ynghlwm wrth hynny, yn trosglwyddo i'r Awdurdod Lleol pan gaiff plentyn ei drosglwyddo i'w ofal

13. Rhaid i'r heddlu ac Awdurdodau Lleol fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i sicrhau bod y plentyn yn bresennol yn y llys.

## Cyfrifoldebau cyfreithiol

### Yr heddlu

- Rhaid i'r heddlu ystyried rhoi mechnïaeth neu fechnïaeth amodol (fel y bo'n briodol) yn unol â Deddf Mechnïaeth 1976 ac Adran 38 (1) o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE);
- Os ydynt yn gwrthod mechnïaeth yn unol ag Adran 38(3) o PACE, rhaid iddynt gofnodi hynny'n ysgrifenedig;
- Rhaid iddynt sicrhau bod plentyn yn cael ei drosglwyddo i lety Awdurdod Lleol yn unol ag Adran 38(6) o PACE oni bai bod hynny'n anymarferol;
- Rhaid iddynt asesu a oes perygl i'r person ifanc achosi 'niwed difrifol' ac a oes angen gofyn i'r Awdurdod Lleol am lety diogel;
- Os yw'n anymarferol trosglwyddo'r plentyn, rhaid llenwi'r dystysgrif berthnasol ar gyfer y llys yn unol ag Adran 38 (7) o PACE;
- Os penderfynwyd ei bod yn 'anymarferol' trosglwyddo'r person ifanc, neu os nad oes llety diogel ar gael, dylai'r heddlu lenwi'r tystysgrifau perthnasol ar gyfer y llys o dan Adrannau 38(6) (a), 38(6) (b) a S.38(7) o PACE a sicrhau bod y person ifanc yn ymddangos gerbron y llys nesaf sydd ar gael, yn unol ag Adran 48.

**Awdurdodau Lleol**

- Rhaid i'r Awdurdod Lleol dderbyn plant a rhoi llety iddynt os gwnaed cais at y diben hwnnw o dan adran 38 (6) o PACE (adran 77 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014);
- Os caiff pobl ifanc eu trosglwyddo i lety'r Awdurdod Lleol, ystyrir eu bod yn 'derbyn gofal' at ddibenion rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014);
- Os caiff pobl ifanc eu trosglwyddo o dan Adran 38 o PACE, yr Awdurdod Lleol sydd â'r pŵer i'w cadw'n gaeth yn gyfreithlon ac sy'n atebol am wneud hynny;
- Maent yn darparu i Oedolion Priodol gefnogi'r plant a'r bobl ifanc a gedwir yn gaeth gan yr heddlu, yn unol â PACE a Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998;
- Os caiff plentyn ei gadw'n gaeth o dan adran 38 o PACE, ac os na chafodd ei drosglwyddo i lety Awdurdod Lleol neu'r GIG, gall yr heddlu hawlio ad-daliad gan yr Awdurdod Lleol lle mae'r plentyn yn arfer byw am unrhyw dreuliau rhesymol a ysgwyddwyd i letya'r plentyn (adran 77(4) a (5) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014).

## Canllawiau ymarferol

Mae’r adrannau a ganlyn yn ehangu ar yr egwyddorion craidd ac yn rhoi canllawiau a gwybodaeth ymarferol i ymarferwyr. Y bwriad yw egluro’r arfer y mae angen i’r holl bartneriaid sy’n rhan o’r broses lynu wrtho; egluro’u rolau a’u cyfrifoldebau; a’u dyletswyddau statudol mewn perthynas â phlant sy’n cael eu cadw yn y ddalfa gan yr heddlu. Drwy ddilyn yr egwyddorion, a manylu ar y modd y gellir rhoi’r egwyddorion hyn ar waith yn ymarferol, y nod yw helpu staff rheng flaen i ddeall beth yn union y mae angen iddynt ei wneud i gydymffurfio, a beth y mae’n ei olygu o ran eu gwaith o ddydd i ddydd.

Ochr yn ochr â’r protocol hwn, mae heddluoedd Cymru yn datblygu proses safonedig o gasglu data. Bydd hyn yn caniatáu iddynt gasglu gwybodaeth yn gyson a gall hynny fod yn sail tystiolaeth wrth ddatblygu polisïau yn y dyfodol a bydd yn helpu i olrhain effeithiolrwydd y protocol hwn.

## 1. Cyhuddo

Pan fydd yr heddlu'n penderfynu bod ganddynt ddigon o dystiolaeth i gyhuddo plentyn neu berson ifanc o droseddu, mae gwahanol gamau y gallant eu cymryd (gan ddibynnu ar yr amgylchiadau). Os yw'r heddlu'n bwriadu cyhuddo plentyn, dylai **swyddogion y ddalfa** fod yn ymwybodol ei bod yn llawer anoddach trosglwyddo plentyn i ofal yr Awdurdod Lleol yn ystod oriau'r nos nag ydyw yn ystod y dydd neu'n gynnar fin nos. Os oes modd, dylent geisio cwblhau'r broses gyhuddo ar adeg pan fydd yn haws trosglwyddo'r plentyn yn llwyddiannus i ofal yr Awdurdod Lleol (gan dderbyn na fydd hynny'n bosibl bob amser oherwydd gweithdrefnau ymchwilio). Mae'n arfer da rhoi gwybod i'r **Tîm Troseddwyr Ifanc / Tîm Dyletswydd Brys** cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol

## 2. Mechnïaeth

<u>Rhagdybio y caniateir mechnïaeth</u>

Mae gan bobl o bob oed hawl i gael mechnïaeth o dan Ddeddf Mechnïaeth 1976 ac eithrio o dan rai amgylchiadau arbennig (gweler y blwch isod). Ar ôl cyhuddo'r plentyn, rhaid i **swyddog y ddalfa** ystyried caniatáu mechnïaeth; ac os caiff ei ganiatáu, rhaid ystyried a oes angen gosod amodau, ac a fydd yr amodau hynny'n ddigonol i leddfu unrhyw bryderon.

<u>Mechnïaeth amodol</u>

Weithiau byddai rhyddhau plentyn ar fechnïaeth yn creu pryderon ynghylch sicrhau cyfiawnder, gallai arwain at ragor o droseddau neu fygwth diogelwch y plentyn neu'r person ifanc.

**Rhesymau posibl dros wrthod mechnïaeth o dan Adran 38 (1) o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984**

- nid oes modd cadarnhau enw a chyfeiriad y person ifanc a gyhuddwyd neu mae pryderon ynghylch dibynadwyedd y wybodaeth a roddodd
- mae rhesymau dros gredu na fydd y person ifanc yn ymddyngos yn y llys ar y dyddiad a'r amser a bennwyd *
- mae'r person ifanc yn debygol o droseddu eto
- mae perygl i'r person ifanc achosi niwed corfforol i rywun arall neu ddwyn/difrodi eiddo
- osogi ymyrryd â chyfiawnder troseddol neu ymyrryd ag ymchwiliad i drosedd
- mae angen cadw'r person ifanc yn gaeth i'w gadw'n ddiogel ac er ei les ei hun
- cyhuddwyd y person ifanc o gyflawni trosedd ddifrifol neu dreisgar sydd wedi'i rhestru yn Neddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994

**Os yw plentyn yn torri mechnïaeth a/neu warant i'w restio, yna nid oes raid ei drosglwyddo i lety'r Awdurdod Lleol. Ond os oes pryderon y gall dorri mechnïaeth, dylid trosglwyddo'r plentyn i lety Awdurdod Lleol (oni bai bod hynny'n anymarferol).*

Os oes pryderon o'r fath, rhaid i **swyddog y ddalfa** ystyried o ddifrif a ellir lleddfu'r ofnau drwy osod amodau ar fechnïaeth y plentyn.

Cyflwynwyd mechnïaeth amodol i sicrhau bod y rhai sydd wedi'u cyhuddo'n cael eu rhyddhau ar fechnïaeth pan fo modd, hyd yn oed os oes pryderon ynghylch gwneud hynny. Gall gynnwys enghreifftiau fel cyfyngiadau'n ymwneud â lle y maent yn byw, eu gwahardd o rai ardaloedd, gosod cyrffyw, mynnu eu bod yn mynd i orsaf heddlu'n rheolaidd neu'n dilyn cwrs addysgol.

Mae'n aml yn arfer da i **swyddog y ddalfa** gysylltu â **Thîm Troseddwyr**

**Ifanc / Tîm Dyletswydd Brys** yr Awdurdod Lleol i drafod unrhyw bryderon ac amodau priodol; yn enwedig os oes pryder y gallai'r person ifanc dorri mechnïaeth.

Dylai **Oedolion Priodol** ddilyn y broses hon yn ofalus wrth wneud penderfyniadau. Dylid sicrhau bod prosesau clir ar waith i'w galluogi i gysylltu â'r heddlu os gwrthodir mechnïaeth. Dylid caniatáu iddynt herio swyddogion y ddalfa os ydynt yn credu na fodlonwyd y meini prawf ar gyfer gwrthod yr hawl i fechnïaeth (neu fechnïaeth amodol).

Os yw **swyddog y ddalfa** yn penderfynu bod yn rhaid gwrthod yr hawl i fechnïaeth - hyd yn oed mechnïaeth amodol - rhaid iddo/iddi gofnodi'r rhesymau dros hynny'n ysgrifenedig , a chyn gynted â phosibl, yng nghofnod dalfa'r plentyn. Mae hyn yn ofynnol o dan adran 38 (3) o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984. Os na chaiff y plentyn ei drosglwyddo wedyn i lety Awdurdod Lleol, dylid cofnodi'r rheswm dros hynny hefyd ar y daenlen plant a phobl ifanc. Pan gymerir y plentyn i'r **llys** o ddalfa'r heddlu neu lety'r Awdurdod Lleol, dylai'r llys graffu ar y penderfyniad i wrthod mechnïaeth i'r plentyn.

## 3. Trosglwyddo plant i'r Awdurdod Lleol

Os gwrthodir mechnïaeth i blentyn, mae gan **swyddogion y ddalfa** ddyletswydd o dan Adran 38 (6) o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol i sicrhau bod y plentyn a gafodd ei arestio'n cael ei drosglwyddo i lety Awdurdod Lleol. Fodd bynnag, mae'r Ddeddf yn caniatáu i'r heddlu gadw'r plentyn yn y ddalfa os yw'n *anymarferol* ei drosglwyddo.

> **'Anymarferol'**
>
> Yng nghyd-destun y Ddeddf, **nid** yw'n 'anymarferol' trosglwyddo plentyn oherwydd y rhesymau a ganlyn**:**
>
> a) nid oes llety neu gludiant ar gael yn yr Awdurdod Lleol;
> b) ymddygiad y plentyn neu natur y drosedd;
> c) mae'n 'anodd' neu'n 'anghyfleus' ei drosglwyddo.
>
> Dylid cymryd mai ystyr 'anymarferol' yw ei bod ***yn amhosibl symud y plentyn oherwydd amgylchiadau eithriadol*** e.e. tywydd eithriadol.

Os yw **swyddog y ddalfa** yn penderfynu ei bod yn anymarferol trosglwyddo plentyn, rhaid iddo/iddi gofnodi'r rhesymau dros y penderfyniad yn ysgrifenedig. Mae hyn yn ofynnol o dan adran 38 (3) o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984. Rhaid cyflwyno'r cofnod i'r llys cyn i'r plentyn ymddangos.

Mae Adran 38 (6) (b) o PACE yn caniatáu i'r heddlu gadw plentyn o dan 12 oed yn gaeth o dan rai amgylchiadau. Yn benodol, os nad oes gan yr Awdurdod Lleol lety diogel ac os na fyddai unrhyw fath arall o lety'n addas i ddiogelu'r cyhoedd rhag niwed difrifol. Rhaid i swyddog y ddalfa gredu y gallai'r plentyn achosi niwed difrifol i'r cyhoedd rhwng yr adeg y caiff ei gyhuddo a'r adeg y bydd yn ymddangos gerbron y llys. Anaml y bydd plentyn yn bodloni'r gofynion hyn; os gallai plentyn achosi 'niwed difrifol', mae hynny'n golygu ei fod yn debygol o achosi marwolaeth neu anaf difrifol (p'un ai'n gorfforol neu'n seicolegol) i aelod o'r cyhoedd.

Rhaid i swyddog y ddalfa ystyried hyn yn ofalus a bod yn barod i drafod eu safbwynt ag Oedolion Priodol. Dylai Oedolion Priodol geisio deall pryderon swyddog y ddalfa;

fodd bynnag, os na chânt eu hargyhoeddi y byddai'r plentyn yn risg mor ddifrifol a bygythiol, dylent ddadlau o blaid ei roi mewn llety heb ei ddiogelu. Rhaid cofio y bydd esboniad llawn o bryderon yr heddlu'n cael ei gynnwys gydag unrhyw gais am lety heb ei ddiogelu, ac y bydd hwnnw'n dylanwadu ar y math o lety y bydd yr Awdurdod Lleol yn penderfynu sy'n addas i'r plentyn ac yn sicrhau bod yr holl risgiau wedi'u hystyried.

Os na chaiff y plentyn ei drosglwyddo, dylai'r **heddlu** gofnodi'r rhesymu pam (gweler yr adran isod ar fethu trosglwyddo plant) ac, mewn cydweithrediad â'r **awdurdod lleol**, dylent graffu ar y penderfyniad i beidio â symud y plentyn o ddalfa'r heddlu, a'i herio.

Nid yw'r gyfraith yn dynodi pwy sy'n gyfrifol am gludo plant o ddalfa'r heddlu i lety'r Awdurdod Lleol. Mae'r heddlu a'r Awdurdod Lleol yn rhannu'n cyfrifoldeb i weithio gyda'i gilydd i benderfynu sut i gludo'r plant, cynnal asesiad risg priodol ac ystyried beth sydd orau i'r plentyn. Dylid ystyried ffactorau fel oed, aeddfedrwydd, y pellter o'i gartref, difrifoldeb y drosedd, pa mor agored i niwed ydyw a sut y byddai'n cyrraedd adref.

## 4. Llety heb ei ddiogelu

Ni fydd angen llety diogel ar gyfer y rhan fwyaf o blant a gaiff eu cyhuddo o droseddu, gan gynnwys:

- plant dan 12 oed;
- plant **nad** ydynt yn fygythiad difrifol i'r cyhoedd (hy nid ydynt yn debygol o achosi marwolaeth na niwed difrifol i neb, p'un ai'n gorfforol neu'n seicolegol)

Os nad yw'r plentyn yn bodloni'r meini prawf a fyddai'n cyfiawnhau ei roi mewn llety diogel, ac os yw **swyddog y ddalfa** yn penderfynu bod llety heb ei ddiogelu'n briodol, rhaid iddo neu iddi gysylltu â **Thîm Troseddwyr Ifanc** yr Awdurdod Lleol yn ystod oriau swyddfa arferol neu â'r **Tîm Dyletswydd Brys** unrhyw adeg arall i ofyn am lety.

Mae gan **Awdurdodau Lleol** ddyletswydd i letya'r plentyn o dan adran 77 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Dylai'r **Awdurdod Lleol** sicrhau ei fod yn deall y rhesymau dros wrthod mechnïaeth a pham nad oedd modd rhyddhau'r plentyn ar fechnïaeth amodol.

Ar ôl cytuno i drosglwyddo'r plentyn, dylai **swyddog y ddalfa** roi'r wybodaeth a ganlyn i staff yr Awdurdod Lleol:

- Manylion personol y plentyn, gan gynnwys unrhyw ffactorau sy'n awgrymu ei fod yn agored i niwed;
- Natur y drosedd;
- Y rhesymau dros wrthod mechnïaeth i'r plentyn, a pham na ellid gosod amodau i ddileu'r pryderon hyn.

Rhaid i'r Awdurdod Lleol benderfynu lle y caiff y plentyn ei letya ac, wrth wneud hynny, rhaid rhoi blaenoriaeth i'r hyn sydd orau i'r plentyn. Gall dewis dychwelyd y plentyn i ofal ei deulu neu gyfeillion (os yw hynny'n briodol), ei roi yng ngofal teulu maeth neu mewn cartref plant.

Er mai'r **Awdurdod Lleol** sy'n gyfrifol am benderfynu lle i letya'r plentyn, mae'n allweddol bod yr **heddlu** yn rhannu gwybodaeth am y plentyn er mwyn medru asesu risg wrth ei leoli. Gan hynny, mae'n arfer da i Awdurdodau Lleol gynnwys yr heddlu mewn penderfyniadau ynghylch lletya'r plentyn.

## 5. Llety diogel

Mae Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol yn nodi'r meini prawf ar gyfer trosglwyddo plant i lety diogel:

**Niwed difrifol:**
Anaml iawn y gellir bodloni'r gofyniad hwn. Drwy ddweud y gallai plentyn achosi niwed difrifol i'r cyhoedd, rhaid credu ei fod yn debygol o achosi marwolaeth neu anaf difrifol (p'un ai'n gorfforol neu'n seicolegol) i aelod o'r cyhoedd rhwng yr adeg y caiff ei gyhuddo a'r adeg y bydd yn ymddangos yn y llys.

1. rhaid i **swyddog y ddalfa** gredu y gallai'r plentyn achosi niwed difrifol i'r cyhoedd.

Ar ôl i **swyddog y ddalfa** benderfynu bod yn rhaid trosglwyddo'r plentyn i lety diogel rhaid iddo/iddi gysylltu â **Thîm Troseddwyr Ifanc** yr Awdurdod Lleol yn ystod oriau swyddfa arferol neu â'r **Tîm Dyletswydd Brys** unrhyw adeg arall (mae rhestr ar gael ar gov.uk drwy'r ddolen hon) i ofyn am lety diogel i'r plentyn.

Dylai **swyddog y ddalfa** roi'r wybodaeth a ganlyn:

1. Manylion personol y plentyn, gan gynnwys unrhyw ffactorau sy'n awgrymu ei fod yn agored i niwed;
2. Natur y drosedd;
3. Y rhesymau dros gredu y gallai'r plentyn ladd neu anafu aelod o'r cyhoedd.

Bydd yr **Awdurdod Lleol** felly'n deall y rhesymau, a seiliwyd ar feini prawf PACE, dros wneud cais am lety diogel.

Rhaid i'r **Awdurdod Lleol** wneud pob ymdrech rhesymol i ddod o hyd i lety diogel i'r plentyn. Mae gwybodaeth am gartrefi diogel i blant yn www.securechildrenshomes.org.uk a bydd gan **National Bed Bank** (a gaiff ei redeg gan y **Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid**) fanylion am y gwelyau sydd ar gael: y rhif ffôn y tu allan i oriau arferol yw 0845 3633 6383.

Os nad yw'r **Awdurdod Lleol** yn llwyddo i ddod o hyd i lety diogel i'r plentyn, dylai ymchwilio i unrhyw leoliadau posibl addas eraill, a'u trafod â **swyddog y ddalfa** cyn penderfynu a yw'n addas. Os nad oes lleoliadau addas eraill ar gael, yna bydd yn rhaid i **swyddogion y ddalfa** gadw'r plentyn yng nghelloedd yr heddlu er mwyn diogelu'r cyhoedd.

Mae adrannau 119 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a 25(1) o Ddeddf Plant 1989 yn caniatáu i **Awdurdodau Lleol** roi plant mewn llety diogel yng Nghymru, hyd yn oed os na ofynnodd swyddog y ddalfa iddynt wneud hynny. Caiff Awdurdodau Lleol Cymru hefyd roi plentyn mewn cartref diogel i blant yn Lloegr o dan adran 25 o Ddeddf Plant 1989. Mae Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) 2015 yn nodi bod angen i Awdurdodau Lleol ddefnyddio prawf addasedig pan fyddant yn ystyried rhoi plentyn 12-17 oed, a gadwyd yn gaeth o dan adran 38(6) o PACE, mewn llety diogel (Rheoliad 15). Mae'r addasiad yn dileu'r angen i ddangos bod plentyn yn debygol o ddianc. Os yw'r plentyn o dan 13 oed, rhaid i'r Awdurdod Lleol geisio cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru cyn rhoi'r plentyn mewn llety diogel (Rheoliad 13).

## 6. Y pŵer i gadw plant yn gaeth

Pan fydd **swyddog yr heddlu** yn trosglwyddo plentyn i staff yr **Awdurdod Lleol,** bydd hefyd yn trosglwyddo'r pŵer i gadw'r plentyn hwnnw'n gaeth yn gyfreithlon. <u>Mae hyn yn gymwys bob tro y caiff plentyn ei gyhuddo o droseddu ac y caiff mechnïaeth ei wrthod</u>.

Mae Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 adran 38(6B) yn nodi: "Where an arrested juvenile is moved to Local Authority accommodation under subsection (6) above, it shall be lawful for any person acting on behalf of the authority to detain him." Hefyd, mae adran 39(4) yn tanlinellu'r ffaith bod cyfrifoldeb **swyddogion y ddalfa** dros y plentyn yn dod i ben yn gyfan gwbl pan gaiff y plentyn hwnnw ei drosglwyddo i'r Awdurdod Lleol. Rhaid i staff yr **Awdurdod Lleol** fod yn ymwybodol o faint y cyfrifoldeb sydd arnynt wrth i'r pŵer hwn gael ei drosglwyddo.

Rhaid cadw'r plentyn yn gaeth yn gyfreithlon nes bydd yn ymddangos gerbron y llys. Staff yr **Awdurdod Lleol** sy'n gyfrifol am sicrhau bod y modd y caiff ei gadw'n gaeth yn gyfreithlon. Nhw yw gwarcheidwaid y plentyn, ac mae eu cyfrifoldeb cyfreithiol dros y plentyn yr un fath â chyfrifoldeb cyfreithlon swyddogion y ddalfa dros unrhyw un sy'n cael ei gadw'n gaeth mewn cell.

Pan gaiff plentyn ei drosglwyddo i lety Awdurdod Lleol (yn enwedig llety heb ei ddiogelu), bydd y cyfleoedd i'r plentyn ddianc yn cynyddu. Gall hefyd ymddangos i'r plentyn bod y sefyllfa'n llai difrifol a bod dianc o lety'r Awdurdod Lleol yn wahanol i ddianc o gell yn yr orsaf heddlu. <u>Yn gyfreithiol, nid yw hynny'n wir</u>. Os yw'r plentyn yn dianc, bydd yn cyflawni trosedd ddifrifol, sef dianc rhag cael ei gadw'n gaeth yn gyfreithlon.

Mae'n bwysig bod y plentyn yn deall hyn er mwyn osgoi camddealltwriaeth dilys a allai greu mwy o anawsterau i'r plentyn; ac i sicrhau y gellir cyfiawnhau unrhyw gyhuddiad dilynol o ddianc rhag cael ei gadw'n gaeth yn gyfreithlon. Wrth drosglwyddo'r plentyn i'r Awdurdod Lleol, rhaid i **swyddog yr heddlu** roi'r wybodaeth a ganlyn i'r plentyn (ym mhresenoldeb staff yr Awdurdod Lleol):

> *"Rydych wedi'ch cyhuddo o [y drosedd] ac mae'n rhaid i chi fynd i'r llys ar [dyddiad]. Nid ydych wedi cael mechnïaeth, ac mae hynny'n golygu bod yn*

*rhaid i chi gael eich cadw'n gaeth tan y dyddiad y byddwch yn mynd i'r llys. Pe baech yn oedolyn, byddech yn aros yng nghelloedd yr heddlu tan hynny, ond gan ein bod o dan 18 oed, mae'r Awdurdod Lleol yn mynd i ofalu amdanoch chi nes byddwch yn mynd i'r llys. Bydd yr Awdurdod Lleol yn penderfynu lle y byddwch yn aros tan hynny.*

*Mae'n bwysig iawn eich bod yn deall eich bod yn dal yn cael eich cadw'n gaeth: mae hynny'n golygu bod yn rhaid i chi aros lle mae'r Awdurdod Lleol yn eich anfon ac ni chewch adael heb eu caniatâd nhw. Os byddwch yn gadael heb ganiatâd, bydd yr Awdurdod Lleol yn dweud wrth yr heddlu a byddwch yn mewn mwy o helynt, yn union fel pe baech wedi dianc o'r orsaf heddlu. Ydych chi'n deall?"*

Dylai **swyddog yr heddlu** a staff yr **Awdurdod Lleol** fod yn sicr bod y plentyn wedi deall y pwyntiau hyn, a'u hesbonio ymhellach os oes angen.

Os yw **oedolyn addas** yn ymwybodol bod plentyn ar fin cael ei drosglwyddo i lety'r Awdurdod Lleol, mae'n bosibl y gallai helpu i esbonio'r sefyllfa a pharatoi'r plentyn.

## 7. Statws 'derbyn gofal'

Os caiff plentyn neu berson ifanc ei drosglwyddo i lety Awdurdod Lleol, bydd yn blentyn sy'n 'derbyn gofal' at ddibenion Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 os yw'n aros yn y llety am gyfnod di-dor o 24 awr o leiaf.

## 8. Anghytuno ynghylch trosglwyddo plentyn ac uwchgyfeirio achosion

Weithiau, bydd staff yr Awdurdod Lleol a staff yr heddlu'n anghytuno ynghylch sut y dylid ymdrin â phlentyn neu berson ifanc o dan y protocol. Os na allant gytuno, rhaid uwchgyfeirio'r achos at uwch staff yr **heddlu** a'r **Awdurdod Lleol** i sicrhau bod yw'r heddlu a'r Awdurdod Lleol yn bodloni'r gofynion cyfreithiol. Rhaid i'r partneriaid lleol gytuno ar eu prosesau uwchgyfeirio'u hunain.

## 9. Methu trosglwyddo plentyn i lety Awdurdod Lleol

Os nad fu modd trosglwyddo plentyn (am ba reswm bynnag) rhaid i **swyddog y ddalfa** gofnodi manylion yr achos, a'r rhesymau dros benderfynu peidio â throsglwyddo'r plentyn, yng nghofnodion y ddalfa ac ar y daenlen plant a phobl ifanc. Mae'n arfer da i achosion o'r fath gael eu hadolygu gan gyd-banel monitro ac adolygu sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r **heddlu** a'r **Awdurdod Lleol**.

## 10. Monitro ac adolygu

Mae'r paneli monitro ac adolygu lleol yn allweddol i'r gwaith o fonitro pa mor aml y gwrthodir mechnïaeth i blant a phobl ifanc a pha mor effeithiol yw'r protocol hwn o ran diwallu eu hanghenion. Dylai cynrychiolwyr o'r heddlu, adrannau perthnasol y

Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant, y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc a'r Tîm Dyletswydd Brys gyfarfod yn rheolaidd i adolygu gwendidau yn y broses ac i ddileu unrhyw rwystrau.

I gynorthwyo'r paneli â'u gwaith adolygu, bydd yr heddlu'n paratoi adroddiadau data'n rheolaidd ar nifer y plant a phobl ifanc a gadwyd yn gaeth gan yr heddlu; y nifer y gwrthodwyd mechnïaeth iddynt a'r nifer y gofynnwyd i'r Awdurdod Lleol eu lletya.

## 11. Sicrhau presenoldeb yn y Llys

Ar ôl cyhuddo'r plentyn a'i gadw'n gaeth, cyfrifoldeb y canlynol yw sicrhau ei fod yn bresennol yn y llys:

- Yr **heddlu** os na chafodd y plentyn ei drosglwyddo i lety'r Awdurdod Lleol
- Yr **Awdurdod Lleol** os cafodd y plentyn ei drosglwyddo naill ai lety diogel neu lety heb ei ddiogelu

Os caiff plentyn ei drosglwyddo i lety'r Awdurdod Lleol y tu allan i oriau arferol, mae'n hanfodol bod gwasanaeth y tu allan i oriau arferol yr Awdurdod Lleol neu'r Tîm Dyletswydd Brys yn rhoi gwybod i'r Tîm Troseddwyr Ifanc am y plentyn ac am yr angen iddo fod yn bresennol yn y llys.

## Atodiad A: Rhestr termau

<u>Remand PACE (Yr heddlu'n cadw plant a phobl ifanc yn gaeth ar remánd )</u>

Os yw plant neu bobl ifanc wedi troseddu ac os nad yw'n ddiogel eu rhyddhau oherwydd y credir bod perygl iddynt achosi niwed difrifol i'r cyhoedd, yna gall yr heddlu eu cadw ar remand o dan adran 38(6) o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol. Mae hyn yn caniatáu i'r heddlu eu cadw'n gaeth nes byddant yn ymddangos gerbron y llys.

<u>Llety heb ei ddiogelu</u>

Mae dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i dderbyn a lletya plant a phobl ifanc sy'n cael eu cadw ar remand gan yr heddlu o dan adran 46(3) (f) o PACE (adran 77 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Gall llety heb ei ddiogelu fod yn lleoliad gyda theulu neu ffrindiau (lle bo hynny'n briodol), teulu maeth neu gartref plant (ac eithrio cartref diogel i blant).

<u>Llety diogel</u>


Cartrefi diogel i blant yw llety diogel. Mae 15 o'r rhain yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys un yng Nghymru, yn Hillside, Castell-nedd. I weld y manylion, ewch i www.securechildrenshomes.org.uk.

Mae llety diogel yng nghyd-destgun PACE yn caniatáu i blentyn neu berson ifanc gael ei gadw'n gaeth mewn lleoliad (lle mae drysau clo) ar wahân i ddalfa'r heddlu. NI fydd plant sy'n cael eu cadw o dan adran 38 (6) o PACE wedi cael eu collfarnu yn y llys, ond byddant wedi cael eu cyhuddo o lofruddiaeth neu eu cyhuddo dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 Atodlen 15 Rhan 1 (trosedd dreisgar) neu Ran 2 (trosedd rywiol) a chredir eu bod yn fygythiad difrifol iddynt hwy eu hunain neu i eraill.

Yr unig lety diogel yng Nghymru i blant a phobl ifanc yw canolfan ddiogel Hillside.

<u>Dros nos</u>
At ddibenion y canllawiau hyn, ac at ddibenion cofnodi, ystyrir bod plentyn neu berson ifanc yn cael ei gadw yn y ddalfa dros nos os bydd yn cael ei gadw'n gaeth rhwng 11.59pm a 5am. Nid yw hyn wedi'i nodi yn PACE.

## Atodiad B: Map o'r




## broses[1]

[1] Mae'r ddyletswydd gyfreithiol i awdurdod lleol ddarparu llety o dan adran 21 o Ddeddf Plant 1989 wedi'i ddisodli gan Adran 77 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014